# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 19 Mawrth 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Ann Davies, Meirick Davies a/ac Pat Jones.

Y Cynghorydd Brian Blakeley a/ac Martyn Holland.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Arweinydd Tîm Cyllid Allanol (SMJ), Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Richard Davies, Dewi Owens, Merfyn Parry a/ac Bill Tasker.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Ann Davies gysylltiad personol yn Eitem rhif 3 ar y Rhaglen "Materion Brys" gan fod ei mab yng nghyfraith yn cael ei gyflogi gan Ysbyty Glan Clwyd.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, nododd y Cadeirydd ei fwriad i gynnwys y mater canlynol i'w drafod oherwydd bod angen rhoi sylw brys iddo o dan ddarpariaethau Rhan II:-

**1. Cau'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol –** Mynegodd yr Aelodau bryderon ynglŷn â cholli'r gwasanaeth hwn ddiwedd mis Mawrth 2015. Er ei fod yn wasanaeth yn y Rhyl mae'n darparu gwasanaeth i'r sir gyfan, yn enwedig unigolion a grwpiau cymunedol yn rhai o wardiau mwyaf difreintiedig y sir. Cynghorodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y gwnaed penderfyniad yn 2013 i leihau cyllid yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol o £25 mil.

Gwnaed y penderfyniad yn rhannol i ddelio â gostyngiad yn y gyllideb, ond hefyd i ddiwallu anghenion datblygu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddiwallu gofynion deddfwriaeth gofal cymdeithasol newydd. Roedd trefniadau trosglwyddo ar waith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a byddai'r ddau aelod o staff yr effeithir arnynt yn symud i rolau newydd o fewn y Gwasanaeth. Roedd Swyddogion, gan gynnwys y Cyfarwyddwr wedi cyfarfod gyda Chyngor Tref y Rhyl a Phartneriaeth

Arfordirol y Rhyl i drafod dyfodol yr adeilad a dulliau amgen o ddarparu'r gwasanaethau sydd ar gael yno ar hyn o bryd.

Pwysleisiwyd bod rhai o'r gwasanaethau yr oedd y Cyngor yn eu cynnig yn yr Asiantaeth ar hyn o bryd yn wasanaethau anstatudol, ond yn ystod cyfnodau anodd roedd yn rhaid i'r Awdurdod ganolbwyntio ar wasanaethau statudol a swyddogaethau craidd. Gan fod rhai o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn cael eu cynnig trwy asiantaethau eraill megis y Ganolfan Waith yna ni fyddai'n effeithlon defnyddio adnoddau cyfyngedig y Cyngor i ddyblygu'r gwasanaethau hynny. Cynghorodd y Cyfarwyddwr bod y Cyngor yn fodlon bod sefydliad 'partner' yn defnyddio'r cyfleuster ac yn defnyddio'r offer sydd yno sydd yn eiddo i'r Cyngor ar hyn o bryd. Pe bai menter gymdeithasol yn defnyddio'r adeilad gallant hwy fanteisio ar fentrau megis rhenti, trethi a chostau gwasanaeth is ac ati. Fodd bynnag, ni allai'r Cyngor ddarparu staff ar gyfer y Ganolfan gan na fyddai'r amcanion bellach yn cydymffurfio â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol wrth symud ymlaen. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Aelodau bod cyfarfod arall wedi'i drefnu yn y dyddiau nesaf gyda Phartneriaeth Arfordirol y Rhyl i weld os gellir datblygu eu diddordeb yn y cyfleuster, ac mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau fe gynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y Bartneriaeth yn gorff sefydliadol cofrestredig.

Roedd y Pwyllgor o'r farn fod y Rhyl yn colli gwasanaeth cymunedol gwerthfawr unwaith eto. Hysbyswyd y swyddogion bod ambell eitem yn yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn eiddo i'r gymuned ac felly ni ddylid eu symud o'r cyfleuster heb ganiatâd y gymuned. Mewn ymateb i bryderon yr Aelodau ynglŷn â sut y gellir llenwi'r gwagle sy'n cael ei greu trwy gau'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol cynghorodd y Cyfarwyddwr fod gan y sector gwirfoddol rôl bwysig yn y maes hwn gan y gallai gael cyllid i gefnogi gwasanaethau o'r fath gan y llywodraeth ganolog. Awgrymodd efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor wahodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Phartneriaeth Arfordirol y Rhyl i gyfarfod yn y dyfodol i drafod eu rôl i gefnogi grwpiau cymunedol yn Sir Ddinbych yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD –*** *gwahodd cynrychiolwyr o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Phartneriaeth Arfordirol y Rhyl i gyfarfod yn y dyfodol i drafod eu rôl i gefnogi cymunedau i dderbyn gwasanaethau a chyllid pan fydd gwasanaethau anstatudol y Cyngor yn cael eu tynnu'n ôl.*

2. **Uned Hawliau Lles a Nyrsio Macmillan:** Mynegwyd pryderon gan yr Aelodau ynghylch argaeledd gwasanaethau Nyrsio Macmillan i drigolion Sir Ddinbych ar ôl cau'r Uned Hawliau Lles ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Roeddent yn ymwybodol o wybodaeth ddiweddar oedd yn nodi bod trefniadau newydd ar gyfer mynediad i wasanaethau gofal Nyrsio Macmillan trwy Swyddfa Cyngor ar Bopeth heb eu llofnodi'n ffurfiol, felly ni fyddai'r gwasanaeth yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2015 fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Cynghorodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol na ellir dechrau trefniadau trosglwyddo ffurfiol nes y gwneir penderfyniad gan y Cyngor Sir i dynnu gwasanaeth Uned Hawliau Lles yn ôl. Roedd trefniadau trosglwyddo ar y gweill yn

awr ac roedd y swyddogion wedi cyfarfod â'r staff y diwrnod blaenorol i gwblhau'r trefniadau. Byddai'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn raddol yn cymryd y cyfrifoldeb i ddarparu Gwasanaeth Macmillan ar gyfer Sir Ddinbych ac fe fyddent yn derbyn cyllid gan yr elusen ar ei gyfer.

**3. Gwasanaethau Llawdriniaeth Ddwys yn Ysbyty Glan Clwyd –** Mynegodd yr aelodau bryderon ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth llawdriniaeth ddwys yn Ysbyty Glan Clwyd a chywirdeb erthygl yn y Daily Post, dyddiedig 17 Mawrth 2015, yn dilyn y sicrwydd a roddwyd gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), yr Athro Trevor Purt, ynglŷn â gwasanaethau llawdriniaeth ddwys fydd ar gael yn Ysbyty Glan Clwyd yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid anfon llythyr at Brif Weithredwr BIPBC yn ceisio eglurhad ynglŷn â'r mathau o lawdriniaethau fyddai'n cael eu darparu yn Ysbyty Glan Clwyd yn y dyfodol.*

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 18 Rhagfyr 2014.

Materion yn codi:-

8. Partneriaeth y Cynllun Datblygu Gwledig – Eglurodd y Cydlynydd Archwilio, mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.Ll. Davies, mewn perthynas â dyrannu cyllid ar gyfer prosiectau gan Cadwyn Clwyd, byddai hyn yn cael ei ddarparu dan Eitem rhif 5 ar y Rhaglen.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 CYDLYNU FFRYDIAU CYLLID CYMUNEDAU

Roedd adroddiad gan Arweinydd Tîm Datblygu Economaidd a Busnes y De oedd yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol gyda'r Undeb Ewropeaidd (yr UE) a chronfeydd eraill sydd ar gael ar gyfer buddion Cymunedol wedi'i gylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r sefyllfa gyfredol ac argaeledd ffynonellau cyllid posibl, yn amodol ar feini prawf cymhwyso, ar gyfer buddion Cymunedol. Roedd yn nodi'r gefnogaeth sydd ar gael i grwpiau Cymunedol wrth wneud cais am gyllid trwy asiantaethau allanol a rhwydweithiau cefnogaeth, ac yn darparu canllawiau ynglŷn â phrif ffynonellau'r UE a mathau eraill o gyllid sydd ar gael ar hyn o bryd.

Roedd canllaw i'r prif ffynonellau cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd wedi'u darparu ac yn cynnwys Cyllid yr UE a Chronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020. Eglurwyd y byddai swm y cyllid cyfatebol yn amrywio yn ôl pob thema a phrosiect. Roedd

cyfraddau lefelau grant y rhaglen wedi'u darparu i nodi'r lefelau grant a ragwelir. Roedd amcanion buddsoddi ar gyfer rhaglenni yng Nghymru wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Hysbysodd yr Arweinydd Tîm y Pwyllgor wrth gyflwyno ei hadroddiad bod:-

- Canolbwynt rownd newydd Cyllid Ewropeaidd wedi newid. Dan y rhaglen newydd byddai llai o brosiectau lleol yn derbyn cyllid, byddai pwyslais ar brosiectau strategol mawr fyddai'n cael eu darparu naill ai yn isranbarthol, yn rhanbarthol neu hyd yn oed yn genedlaethol:
- Penodwyd Cadwyn Clwyd fel y Grŵp Gweithredu Lleol i ddarparu elfen ARWEINYDD y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) 2014/20, ond gan nad oedd yr Undeb Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r CDG hyd yn hyn, ni fyddai'r cyllid ar gyfer y prosiectau'n cael ei ryddhau ac o ganlyniad roedd y staff wedi'u rhyddhau neu roeddent dan hysbysiad diswyddo. Nid oedd hyn yn sefyllfa ddelfrydol ond roedd tu hwnt i reolaeth y Cyngor;
- Roedd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy wedi'u penodi yn weinyddwyr Cronfa Fferm Wynt Gwynt y Môr yn ddiweddar. Roedd hyn yn gais consortia, a oedd yn cynnwys Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint ymysg y partneriaid eraill. Roedd y Grŵp Ymgynghorol yn awr wedi trefnu cyfarfod ar 7 Ebrill i drafod meini prawf cymhwyso prosiect a sut i symud ymlaen â dosbarthiad grant ac arian.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe gynghorodd yr Arweinydd Tîm-

- O ran Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr roedd rhai anghysondebau ynglŷn â pha mor bell i mewn i'r arfordir y dylid dyrannu buddion y Gronfa, y rheswm dros hyn yw er bod y tyrbinau eu hunain oddi ar y lan roedd effaith weledol ar hyd yr arfordir, ac roedd y cysylltiadau a'r is-orsaf gysylltiol ar y tir, gyda'r is-orsaf ger Llanelwy, a
- Fel rhan o waith Grŵp Ymgynghorol Gwynt y Môr roedd gan swyddogion Sir Ddinbych berthynas waith dda gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy. Hyd yma roedd Sir Ddinbych wedi'i gynrychioli ar Grŵp Ymgynghorol Gwynt y Môr gan swyddogion, ond nawr bod gweinyddydd y gronfa wedi'i benodi mae'n debyg y byddai'r aelodaeth a'r strwythurau yn cael eu hadolygu;
- Roedd symiau o arian gohiriedig yn cael eu gweinyddu gan nifer o adrannau'r Cyngor e.e. y Parth Cyhoeddus, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd, yn dibynnu ar y rheswm pam fod y symiau gohiriedig wedi'u dyrannu. Cadarnhaodd bod holl symiau gohiriedig mannau agored wedi'u hymrwymo;
- Gofynion cyllid cyfatebol ar gyfer y rownd newydd o gyllid Ewropeaidd fyddai: Cronfeydd Strwythurol: 75% cyllid grant, 25% cyllid cyfatebol; CDG: 80% cyllid grant, 20% cyllid cyfatebol. Nid oedd arian cyllid cyfatebol wedi'i ddyrannu gan y Cyngor eto. Byddai dyraniad cyllid cyfatebol yn cael ei ystyried ar rinweddau pob prosiect. Roedd un prosiect wedi'i gyflwyno hyd yn hyn, roedd hyn yn ymwneud â phrosiect sgiliau addysg ar gyfer myfyrwyr 14 i 19 mlwydd oed oedd mewn perygl o adael byd addysg Byddai elfen cyllid cyfatebol y prosiect ar ffurf staff y Cyngor yn prynu darpariaeth cwricwlwm amgen i leihau'r risg o adael byd addysg;
- Byddai cefnogaeth i gael gwybodaeth a derbyn cyllid ar gyfer prosiectau yn y dyfodol ar gael trwy Gyngor Gwirfoddol Cymru, oedd yn darparu cefnogaeth

benodol ar gyfer y math hwn o waith. Byddai gwybodaeth ar gael ar wefan GwerthwchiGymru hefyd;
- Roedd dadansoddiad bwlch yn cael ei gyflawni i geisio nodi meysydd o wasanaethau anstatudol fyddai'n elwa o gyllid CDG yn y dyfodol. Eglurwyd y byddai gan y Cynghorwyr rôl bwysig wrth symud ymlaen fel cyswllt rhwng cymunedau a ffrydiau ariannu, gan y byddent yn allweddol i gyfeirio grwpiau cymunedol ac ati at CGGSDd / Cyngor Gwirfoddol Cymru, i gael cyngor a chefnogaeth;
- Nid oedd yr holl gronfeydd cymunedol yn darparu cyllid datblygu at ddibenion cwmpasu prosiectau, fodd bynnag roedd cyllid datblygu ar gael ar gyfer rhai prosiectau'r Loteri FAWR;
- Roedd rhai prosiectau isadeiledd mawr sy'n cael eu noddi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, megis trydaneiddio'r rheilffordd yng Ngogledd Cymru, neu'r morlyn llanw arfaethedig, y tu hwnt i gwmpas Cronfeydd Strwythurol Ewrop oherwydd eu maint a'r gost;
- Nid oedd yn ymwybodol o gyllid cymunedol sydd ar gael i gynorthwyo rhai sy'n prynu tai am y tro cyntaf i gael mynediad i'r farchnad dai, ond byddai'n holi'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i weld os oeddent yn cynnig cyllid i'r diben hwn, a byddai'n gwirio i weld os oedd y rheolau yn ymwneud â symiau gohiriedig ar gyfer gofodau gwyrdd wedi newid.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus bod Aelod Etholedig yn cael ei benodi i gynrychioli Sir Ddinbych ar gorff olynol Bwrdd Ymgynghorol Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr gan fod Gweinyddydd y Gronfa wedi'i benodi yn awr. Cytunwyd hefyd y dylid nodi, yn y gwahoddiad i CGGSDd fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor, dymuniad yr Aelodau i drafod rôl CGGSDd gyda'i gynrychiolwyr i gynorthwyo cymunedau i dderbyn y ffrydiau amrywiol o gyllid cymunedol allanol sydd ar gael iddynt.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD -***

*(a) derbyn yr wybodaeth, yn amodol ar yr arsylwadau uchod;*
*(b) nodi rôl yr Aelodau yn y gymuned i nodi prosiectau a chodi ymwybyddiaeth o ffynonellau cyllid sydd ar gael i grwpiau cymunedol gyda'r diben o wneud y gorau o'r buddion i'r cymunedau a chefnogi darpariaeth blaenoriaethau corfforaethol a Chynllun Corfforaethol y Cyngor;*
*(c) argymell y dylid cyflwyno sylwadau i Grŵp Ymgynghorol Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr yn nodi y dylai bod Aelod Etholedig ar y corff perthnasol fydd yn goruchwylio dyfarniad cyllid grant yn y dyfodol; a*
*(d) bod cyfarfod gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn y dyfodol yn cynnwys trafodaeth ar rôl y sefydliad i gynorthwyo a chefnogi grwpiau cymunedol i gael cyngor ynghylch ffrydiau cyllid cymunedol allanol.*

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o ‘ffurflen o gynnig gan Aelod’ wedi’i gynnwys yn Atodiad 2 ac roedd manylion y ffurflen wedi’u darparu gan y Cydlynydd Archwilio. Ni fydd unrhyw eitemau'n cael eu cynnwys ar raglen gwaith i’r dyfodol heb lenwi ‘ffurflen gynnig ar gyfer archwilio' a derbyn cymeradwyaeth i'w gynnwys ar y rhaglen gan y Pwyllgor neu’r GCIGA. Eglurodd y Cydlynydd Archwilio y byddai cymorth i lenwi’r ffurflenni ar gael os oes angen. Roedd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet wedi’i chynnwys yn Atodiad 3, ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau Pwyllgor diweddar a’r cynnydd gyda’u gweithrediad, wedi’i gynnwys yn Atodiad 4.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:-
Gan fod yr Athro Trevor Purt, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, wedi mynychu sesiwn Friffio’r Cyngor ar 16 Mawrth 2015 i drafod cynllun tair blynedd y Bwrdd gyda’r holl Gynghorwyr, penderfynwyd ei bod ychydig yn gynnar gwahodd cynrychiolwyr BIPBC i’r Pwyllgor ar 30 Ebrill i drafod cynnydd hyd yn hyn. Cytunodd yr Aelodau y dylid gohirio’r cyfarfod gyda chynrychiolwyr y Gwasanaeth Iechyd tan 17 Medi 2015, gyda’r 3 Medi fel dyddiad amgen os oedd angen.

Cytunodd yr Aelodau y dylid penodi’r Cynghorydd J.Butterfield fel cynrychiolydd y pwyllgor ar Grŵp Herio’r Gwasanaeth Addysg. Roedd Atodiad 5 yn cynnwys y rhestr ddiweddaraf o gynrychiolwyr archwilio ar y Grwpiau Herio Gwasanaethau.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’w Raglen Gwaith i'r Dyfodol drafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a’r ychwanegiadau canlynol:-

30 Ebrill 2015:-

Eglurodd y Cydlynydd Archwilio bod Prif Swyddog Cefn Gwlad: Gwasanaethau Warden wedi nodi na fyddai’n gallu mynychu’r cyfarfod a drefnwyd ar 30 Ebrill 2015 i gyflwyno adroddiad ar Gyd-Bwyllgor yr AHNE, a chytunwyd y dylid canslo’r cyfarfod. Cytunodd y Pwyllgor y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer naill ai’r 14 neu’r 21 Mai 2015, yn dibynnu ar argaeledd y rhai sydd angen bod yn bresennol, er mwyn ystyried adroddiad ar Gyd-Bwyllgor yr AHNE. Cytunwyd hefyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Phartneriaeth Arfordirol y Rhyl i’r cyfarfod i drafod eu rôl i gefnogi cymunedau i dderbyn gwasanaethau a chyllid pan fydd gwasanaethau anstatudol y Cyngor yn cael eu tynnu’n ôl. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, darparwyd fanylion ynglŷn ag Aelodaeth Partneriaeth Arfordirol y Rhyl i’r Pwyllgor.

30 Gorffennaf 2015:-

- Eglurodd y Cydlynydd Archwilio bod cais gan swyddog i’r Pwyllgor ystyried adroddiad ar Glwstwr Cymunedau’n Gyntaf Sir Ddinbych wedi’i gymeradwyo a’i drefnu ar y rhaglen gwaith i’r dyfodol ar gyfer 30 Gorffennaf 2015.

Roedd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio, ar 19 Chwefror 2015, wedi ystyried Papur Gwyn diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Ddatganoli, Democratiaeth a Darpariaeth – Diwygio Llywodraeth Leol: Pŵer i Bobl Leol. Roedd Pennod 8 y Papur Gwyn 'Cryfhau Rôl Adolygu', yn gosod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer archwilio, a darparodd y cydlynydd archwilio grynodeb byr o'r trafodion.

Byddai'r Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau'r Pwyllgorau Archwilio yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Roedd ymarfer gwerthuso Archwilio wedi'i gyflawni ac roedd holiadur drafft wedi'i gylchredeg i aelodau archwilio, ac i grŵp ehangach gan gynnwys yr holl Gynghorwyr ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Gofynnodd y Cydlynydd Archwilio bod yr holiaduron yn cael eu dychwelyd cyn gynted â phosibl.

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr y pwyllgor.

Daeth y Cyfarfod i ben am 11.55 a.m.